

Gwasanaeth **Mabwysiadu** Cenedlaethol | National **Adoption** Service

# Mabwysiadu yn eich busnes

Canllaw i gefnogi darpar fabwysiadwyr a mabwysiadwyr cymeradwy, y tu mewn a'r tu allan i'ch busnes.

# Cynnwys


3 **Pwy ydyn ni, beth rydyn ni'n sefyll drosto**

5 **Deall mabwysiadu**
Cwmpasu absenoldeb rhiant, cefnogi rhieni newydd a goresgyn rhwystrau

10 **Sut gallwch chi gefnogi mabwysiadu yng Nghymru**
Syniadau am ffyrdd y gallwch ddangos eich cefnogaeth i'ch teuluoedd mabwysiadol.

11 **Rhannu ar-lein**
Dyddiadau allweddol yn y calendr mabwysiadu a negeseuon cyfryngau cymdeithasol

13 **Busnesau yn taro'r nodyn cywir**

15 **CC**






# Pwy ydyn ni, **beth rydyn ni'n sefyll drosto.**

**Y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol: wedi'i greu i wella gwasanaethau i bawb yr effeithir arnynt gan fabwysiadu yng Nghymru.**

Ers 2014 rydym wedi bod yn paratoi'r ffordd ar gyfer gwell gwasanaethau mabwysiadu yng Nghymru. Rydym yn gywaith o bump asiantaeth ranbarthol sy'n cwmpasu pob un o'r 22 awdurdod lleol yn ogystal â thair asiantaeth fabwysiadu wirfoddol. Gyda'n gilydd rydym yn darparu'r cymorth gorau i blant a'u mabwysiadwr(wyr) yng Nghymru, Ac ni fyddai hyn yn bosibl heb eich cymorth. Pam? Oherwydd rydym yn cyflawni mwy pan fyddwn yn gweithio gyda'n gilydd.

# Pwy ydyn ni

## Gogledd Cymru

0800 085 0774
adoption@wrexham.gov.uk
**northwalesadoption.co.uk**

## De-ddwyrain Cymru

01495 355766
adoption@blaenau-gwent.gov.uk
**southeastwalesadoption.co.uk**

## Canolbarth a Gorllewin Cymru

0300 30 32 505
ymholiadaumabwysiadu@sirgar.gov.uk
**mabwysiaducgcymru.org.uk**

## Bae'r Gorllewin

0300 365 2222
enquiries@westernbayadoption.org
**westernbayadoption.org/cy**

## Y Fro, Y Cymoedd a Chaerdydd

0800 023 4064
contact@adopt4vvc.org
**adopt4vvc.org**

## Ar draws Cymru

### Barnado's Cymru

029 2057 7074
cymru@barnardos.org.uk
**barnardos.org.uk/wales**

### St David's Adoption Service

029 2066 7007
info@stdavidscs.org
**stdavidsadoptionservice.org**



# Dewis mabwysiadu







**Mae mabwysiadu yn benderfyniad arwyddocaol sy'n newid bywyd ac yn un o'r rhai mwyaf y gallai unrhyw un ei wneud.**

Gall pobl ddewis mabwysiadu ar eu pen eu hunain, tra gall eraill fabwysiadu fel cwpl. Efallai bod rhai wedi ceisio beichiogi ond nid yw hyn wedi gweithio iddyn nhw. Ac efallai y bydd rhai yn dewis mabwysiadu fel eu dewis cyntaf ar gyfer dechrau neu ehangu eu teulu. Mae yna hefyd bobl sy'n mabwysiadu perthynas teuluol neu blentyn y maent wedi bod yn ei faethu.

Mae mynd drwy'r broses yn gofyn am ymrwymiad, amser a ffocws, ynghyd â chefnogaeth gan deulu, ffrindiau a chyflogwyr.

Disgwylir i bob darpar fabwysiadydd fynychu cyfres o gyfarfodydd megis rhai anffurfiol digwyddiadau gwybodaeth, ymweliadau cartref gyda gweithwyr cymdeithasol a chyrsiau hyfforddi paratoadol gyda'r nos ac ar rai dyddiau.

Cynhelir asesiad manwl dros gyfnod o bedwar mis a disgwylir hefyd i'r ymgeisydd fynychu Panel Mabwysiadu ar ddiwedd y broses. Yn gyffredinol mae paneli'n cyfarfod yn ystod y dydd ond mae rhai yn cyfarfod gyda'r nos.

## Cofiwch

- Cymerwch amser i ddeall amgylchiadau unigryw'r person
- Peidiwch â gwneud rhagdybiaethau a pheidiwch â gofyn cwestiynau personol sensitif a allai fod yn ddiangen ar gyfer eich proses
- Ansicr am y broses fabwysiadu? Gofynnwch i'r person rydych yn siarad ag ef. Os ydynt yn ansicr, cynghorwch nhw i ofyn i'w gweithiwr cymdeithasol a fydd yn esbonio'r broses ymhellach
- Ymchwiliwch fabwysiadu trwy ymweld â mabwysiaducymru.com

# Deall mabwysiadu



## Absenoldeb rhiant

Gall pobl ddewis mabwysiadau ar eu pennau'u hunain, tra gall eraill fabwysiadu fel cwpl. Ond mae'r rhan fwyaf o gyflogwyr bellach yn cynnig yr un manteision i rieni sy'n mabwysiadu ag y byddent yn eu polisïau ar gyfer rhieni biolegol.

## Beth mae hyn yn ei olygu i gyplauplau

Lle mae cyplau'n mabwysiadu, maen ganddynt yr opsiwn i rannu absenoldeb rhiant neu fe all un ohonynt benderfynu cymryd y rhan fwyaf o'r gwyliau. Y disgwyliad cyffredinol yw, os yw un person yn cymryd y rhan fwyaf o'r gwyliau, mai rhwng naw a deuddeg mis fydd hyn. Disgwylir i'r rhiant eilaidd gymryd o leiaf pedair wythnos o absenoldeb rhiant.

**Pam?** Oherwydd yn ystod pythefnos cyntaf yr absenoldeb bydd y rheini yn dechrau 'cyflwyniadau'; fel arfer proses ddwys o bythefnos o gyfarfod â'r plentyn a meithrin perthynas ag ef tra bod y plentyn yn dal i fyw gyda'i rieni maeth. Ar ôl i gyflwyniadau ddod i ben bydd plentyn yn symud i'w gartref newydd. Fel y gallwch ddychmygu, mae hwn yn addasiad enfawr i bawb dan sylw. Felly, ni ddylai'r diwrnod y mae'r plentyn yn symud i mewn fod yn ddiwrnod y bydd y naill na'r llall o'i rieni newydd yn dychwelyd i'r gwaith.

# Deall mabwysiadu

## Cefnogi rhieni newydd

Mewn 'polisïau tadolaeth' traddodiadol gall tad biolegol ddychwelyd i'r gwaith ar ôl pythefnos o absenoldeb, ond nid yw'r broses fabwysiadu mor syml. Unwaith y bydd y plentyn yn symud i mewn i'w gartref teuluol newydd, bydd y rhieni a'r plentyn yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda gweithwyr cymdeithasol y mae'n ofynnol yn gyfreithiol iddynt eu mynychu.Bydd y plentyn yn debygol o fod wedi profi trawma a bydd angen rhagor o amser arno i ddechrau'r broses fondio â'i rieni newydd.

Mewn rhai achosion efallai y bydd y partner gwrywaidd yn dymuno cymryd mwyafrif y gwyliau sydd ar gael. Ein hargymhelliad yw gwneud pob polisi rhieni yn gyfartal ac ar gael i rieni newydd waeth beth fo'u rhyw.

## Cofiwch

Anogwch reolwyr ac adrannau AD i ystyried sut y gallant gefnogi'r rhiant newydd ar ôl absenoldeb rhiant. Bydd hyn yn cefnogi'r person wrth gwblhau ei lwyth gwaith ochr yn ochr ag addasu i fywyd fel rhiant newydd.



# Deall mabwysiadu

## Sefydlogrwydd Cynnar Cymru

Sefydlogrwydd Cynnar Cymru (SCC) yw'r arfer o leoli plant gyda gofalwyr maeth a fydd yn mynd ymlaen i fod yn fabwysiadwr y plentyn os daw mabwysiadu'n gynllun ar gyfer y plentyn.

Mae hyn yn golygu y byddant naill ai'n gofalu am blentyn hyd nes y bernir ei bod yn ddiogel i'r plentyn ddychwelyd at ei deulu biolegol neu y byddant yn dod yn rhiant mabwysiadol i'r plentyn os nad yw hyn yn bosibl.

Mae'r arfer newydd hwn yn llawer llai trawmatig i blentyn gan mai dim ond un symudiad y bydd yn ei wneud o'i deulu biolegol i gartref newydd, yn hytrach na dioddef lleoliadau maeth lluosog, wynebau ac amgylcheddau anghyfarwydd.

Mae gofalwyr sydd wedi'u cymeradwyo'n ddeuol fel darpar rieni mabwysiadol a gofalwyr maeth, sef Gofalwyr SCC, yn gymwys i gael absenoldeb a thâl mabwysiadu statudol o'r dyddiad y mae'r plentyn wedi'i leoli gyda nhw fel gofalwyr maeth.

Cliciwch yma am ragor o wybodaeth am Sefydlogrwydd Cynnar Cymru. Gellir dod o hyd i wybodaeth ychwanegol am eu hawliau hefyd trwy glicio ar y ddolen a sgrolio i lawr i'r ddogfen o'r enw Gofalwyr SCC a Chyllid.



# Goresgyn rhwystrau

Mae'n bosibl bod gan eich gweithle bolisi eisoes ar gyfer pobl sy'n cael camesgoriad neu gymhlethdodau yn ystod beichiogrwydd. Os felly, efallai y byddwch am ystyried ymestyn y polisi hwn i gynnwys pobl sy'n ceisio mabwysiadu. Er enghraifft, os yw paru yn disgyn trwy leoliad cyn-leoli, os bydd tarfu ar gyflwyniadau, os bydd methiant a bod y plentyn yn dychwelyd i ofal maeth neu os yw person yn aflwyddiannus wrth fabwysiadu neu'n penderfynu tynnu'n ôl. Mae yna lawer o resymau pam y gallai hyn ddigwydd a gall fod yn hynod o straen a thrallodus i ddarpar fabwysiadwyr.

Os nad oes gennych y polisïau hyn ar waith, efallai y byddwch am feddwl a yw hyn yn rhywbeth y gallwch ei gynnig i staff wrth symud ymlaen. Gall polisïau fel hyn fod yn hynod werthfawr i weithiwr sy'n profi'r trawma sy'n gysylltiedig â'r profiadau hyn.



# Sut gallwch chi gefnogi mabwysiadu

## Dyma rai awgrymiadau ar sut y gallwch chi ddangos eich cefnogaeth i fabwysiadu yn fewnol ac yn allanol.

**Adolygwch neu greu polisïau mabwysiadu eich cwmni**
Rydym yn argymell cael polisi mabwysiadu ar wahân ar gyfer gwyliau gan y gall fod yn wahanol i arferion rhieni eraill mewn rhai meysydd allweddol. Bydd y broses fabwysiadu yn newid o bryd i'w gilydd felly sicrhewch fod eich polisïau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

**Siaradwch gydag unrhyw fabwysiadwyr/rhai a fabwysiadwyd yn eich busnes**
Siaradwch gyda phobl o fewn y cwmni sydd eisoes wedi bod drwy'r broses fabwysiadu. Gall hyn roi mewnwelediad defnyddiol i'r broses fabwysiadu ac mae'n bosibl y gallai helpu mireinio pethau wrth roi polisi ar waith.

**Gwybod pa wasanaeth ardal rhanbarthol y mae eich gweithwyr yn perthyn iddo**
Gall gwybod ym mha ranbarth mabwysiadu mae eich gweithwyr yn byw helpu i gefnogi ac annog unrhyw un sy'n ystyried mabwysiadu. Mae'r rhanbarth mabwysiadu y bydd eich gweithwyr yn perthyn iddo ar frig y pecyn hwn. Wedi dweud hynny, cofiwch y gallant hefyd ddewis mabwysiadu trwy asiantaeth fabwysiadu wirfoddol neu i ranbarth lle nad ydynt wedi'u lleoli'n ddaearyddol.

Gallwch hefyd atgoffa mabwysiadwyr sydd angen cymorth yn ddiweddarach bod gan eu rhanbarth neu VAA wasanaeth cymorth mabwysiadu y gallant ei ddefnyddio.

**Rhoi gwyliau ychwanegol i weithwyr**
Mae'r broses fabwysiadu yn cynnwys nifer o gyfarfodydd a digwyddiadau hyfforddi. Mae cefnogi gweithwyr i gymryd amser i ffwrdd ar gyfer hyn o gymorth mawr.

**Cael mabwysiadwr i siarad mewn diwrnod cwrdd i ffwrdd**
Gall sgwrs fanwl, straeon o lygad y ffynnon, a chwalu mythau helpu i addysgu pawb am sut beth yw mabwysiadu, ysbrydoli eraill i fabwysiadu a chreu cymuned o gefnogaeth.

**Codi arian ar gyfer elusennau mabwysiadu lleol neu genedlaethol**
Os yw'ch busnes yn cynnal digwyddiadau codi arian, beth am ystyried ymchwilio i gefnogi elusen fabwysiadu Gymreig megis Mabwysiadu UK Cymru, Gwasanaeth Mabwysiadu Dewi Sant neu Barnardo's Cymru.

**Siaradwch yn gyhoeddus am eich cefnogaeth i fabwysiadu ar eich sianeli digidol**
Siaradwch am eich dilyniant mewn polisïau ar gyfryngau cymdeithasol, gofynnwch i fabwysiadwr ysgrifennu blog ar gyfer eich mewnrwyd. Bydd bod yn agored ynghylch eich cefnogaeth yn creu cymuned o gefnogaeth i (ddarpar) fabwysiadwyr yn eich busnes. Dylai'r gefnogaeth i'r cynllun ddigwydd drwy gydol y flwyddyn ond rydym wedi darparu rhestr o ddiwrnodau ymwybyddiaeth cenedlaethol ac eiliadau allweddol yn y calendr mabwysiadu ynghyd ag awgrymiadau ar gyfer postiadau ar y dudalen nesaf.

# Rhannu ar-lein

## Cyfryngau cymdeithasol

Dyma rai dyddiadau allweddol lle gallwch chi gefnogi ein neges o ddod o hyd i deuluoedd i'r plentyn sy'n aros i gael ei fabwysiadu, a'r gefnogaeth y gall mabwysiadwyr gael mynediad iddo.

| Digwyddiad | Dyddiad | Postiadau cyfryngau cymdeithasol a awgrymir |
|---|---|---|
| Wythnos Mabwysiadu a Maethu LHDT+ | Wythnos lawn gyntaf mis Mawrth | Rydym yn falch i gefnogi [@NAS_handle/[@Regional_handle] yn ystod @newfamilysocial LGBT+ Adoption and Fostering Week.<br><br>Dyma [PERSON] yn siarad am sut rydym wedi cefnogi eu taith fabwysiadu. |
| Wythnos Mabwysiadu a Maethu LHDT+ | Yn ystod mis Medi | Yma yn [enw_busnes], rydym yn gofalu am les ein staff a'n cwsmeriaid.<br><br>Hon yw wythnos @newfamilysocial LGBT+ Adoption and Foster Support Week. Os ydych angen cefnogaeth fabwysiadu neu am ddysgu mwy am fabwysiadu, yna mae [@Regional_handle] ar gael i ateb eich cwestiynau. |
| Wythnos Genedlaethol Mabwysiadu | Yn ystod mis Hydref | Yn ystod #WythnosGenedlaetholMabwysiadu, rydym yn gweithio gyda [@Regional_handle] a [@NAS_handle] i helpu dod o hyd i deuluoedd a all gynnig diogelwch a diogeledd i blant sy'n aros i gael eu mabwysiadu.<br><br>Os ydych chi wedi ystyried mabwysiadu, ac am ddar-ganfod mwy, ewch i [@regional_website] |
| Diwrnod Mabwysiadu'r Byd | 9fed Tachwedd | Rydym yn cefnogi #DiwrnodMabwysiadurByd.<br>Mae heddiw yn ddiwrnod i godi pob llais yn y gymuned fabwysiadu, i rannu eich stori, i fyfyrio ar eich taith fabwysiadu ac i gysylltu â'r rhai sydd wedi eu cyffwrdd gan fabwysiadu.<br><br>I ddysgu mwy am fabwysiadu ewch i wefan [@nas_handle] www.mabwysiadu cymru.com |

# Rhannu ar-lein

## Dolenni cyfryngau cymdeithasol ar gyfer y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Gwasanaethau Rhanbarthol

| | Facebook | Twitter | Instagram |
|---|---|---|---|
| Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | @nationaladoptionservice | @nas_cymru | @nas_cymru |
| Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin | @adoptmwwales | @adoptmw_wales | @adoptmwwales |
| Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru | Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru - North Wales Adoption Service | @nw_adoption | amh |
| Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru | @SEWASAdoption | amh | @sewasadoption |
| Mabwysiadu'r Fro, y Cymoedd a Chaerdydd | @VVCadoption | amh | @vvcadoption |
| Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin | @WesternBayAdoption | @BayAdoption | @western_bay_adoption |
| Gwasanaeth Mabwysiadu Dewi Sant | @StDavidsChildrenSociety | @AdoptionWales | @stdavidsadoptionservice |
| Adoption UK | @aukcymru | @aukcymru | n/a |
| Barnardo's Cymru | @BarnardosCymru | @BarnardosCymru | n/a |




# Busnesau yn taro'r nodyn cywir

**Mae llawer o sefydliadau yng Nghymru yn mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n statudol i gefnogi rhieni sy'n mabwysiadu yn eu busnes.**

cowshed

## Cowshed Communication LTD

"Y llynedd, gwnaethom ni ddarn helaeth o waith i wella ein buddion a'n polisïau. Roedd cynhwysiant wrth wraidd ein penderfyniadau a gyda gweithwyr yn dewis cael teulu mewn gwahanol ffyrdd, roedd sicrhau bod ein polisïau yn deg yn bwysig i ni.

"Trwy ymgynghori â'r tîm, fe wnaethom gydraddoli ein hawl i absenoldeb rhiant ar gyfer mamau, tadau, partneriaid p'un a oedd ganddynt blentyn yn naturiol, trwy IVF, benthyg croth, neu fabwysiadu.

"O'n profiad ein hunain, rydym yn gwybod y dinistr y gall triniaethau aflwyddiannus a lleoliadau gofal ei achosi felly rydym wedi cyflwyno amser i ffwrdd â thâl i alaru am golli dod yn rhiant.

"Mae ein pecyn buddion blaengar eisoes wedi denu talent o sefydliadau mawr i'n busnes bach."

# Busnesau yn taro'r nodyn cywir



**Karen, gweithiwr yng Nghyngor Abertawe**

"Mae gan Gyngor Abertawe bolisiau maethu a mabwysiadu sy'n golygu fy mod yn gallu cymryd amser hyblyg i fynychu sesiynau gyda fy ngweithiwr cymdeithasol yn ystod y broses asesu. Gallwn hefyd ddefnyddio'r opsiwn hwn i fynychu hyfforddiant a fy mhanel mabwysiadu. Mae absenoldeb mabwysiadu yn y cyngor yn absenoldeb mabwysiadu statudol felly defnyddiais 5 diwrnod ar gyfer cyflwyniadau ac yna'r gweddill pan gafodd fy merch ei lleoli gyda mi.

Roedd cael y polisi yn ei le i ganiatáu ar gyfer gweithio hyblyg a'r gefnogaeth gan fy rheolwr i baratoi ar gyfer dyfodiad fy merch, sy'n ddwys a dweud y lleiaf ond roedd yn golygu bod un peth yn llai i boeni amdano ac roedd mor galonogol i wybod y gallwn i weithio'n hyblyg er mwyn gwireddu fy mreuddwyd o ddod yn fam fabwysiadol"

# Cwestiynau Cyffredin

**1. A oes gennyf yr hawl i wybod a yw fy ngweithiwr yn mabwysiadu?**
Mater i'r gweithiwr (mabwysiadwr) yw datgelu'r wybodaeth hon i chi. Rydym yn annog pob ymgeisydd i roi gwybod i'w cyflogwyr cyn gynted â phosibl a phan fyddant yn teimlo'n gyfforddus i rannu eu gwybodaeth.

**2. Faint ddylwn i wybod neu ofyn?**
Mater i'r mabwysiadwr yw rhannu cymaint ag y mae'n gyfforddus â chi. Mae'n bwysig parchu hyn ond cynnig cefnogaeth lle bo angen.

**3. Beth sydd angen i mi ei ddarparu fel rhan o'r broses?**
Gofynnir i chi ddarparu geirda ac o bosibl datganiad ategol. Mae geirda cyfrinachol yn ofyniad statudol os yw eich busnes yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

**4. Faint o gefnogaeth ddylwn i roi?**
Cymaint ag y gall eich busnes ei ddarparu'n rhesymol. Rydym yn awgrymu eich bod yn trin y broses fabwysiadu fel y byddech ar gyfer unrhyw absenoldeb rhiant arall.

**5. Faint o amser i ffwrdd sy'n rhesymol yn ystod y broses fabwysiadu?**
Rydym yn argymell bod darpar mabwysiadwyr yn cael yr un lwfans amser i fynychu hyfforddiant, paratoi, ymweliadau, a gwiriadau meddygol ag y byddai rhiant biolegol ar gyfer sganiau ac apwyntiadau. Mae gan fabwysiadwyr hawl i'r un lwfans o absenoldeb rhiant â rhiant biolegol ac rydym yn cynghori bod absenoldeb mabwysiadu yn gyfartal â'ch polisïau absenoldeb mamolaeth.

Mae'r rhan fwyaf o asiantaethau yn hoffi i'w mabwysiadwyr fod ar gael i blant am o leiaf 6-12 mis ar ôl i'r plentyn ymuno â'r teulu.

**6. Pa absenoldeb rhiant a lwfansau cymorth sy'n addas?**
Cymaint o amser ag sydd ei angen ar y gweithiwr. Gellir mabwysiadu plant o unrhyw oedran ac efallai y bydd angen mwy o amser arnynt i addasu i amgylchedd newydd y cartref. Mae plant sydd â phrofiad o ofal hefyd wedi dod ar draws trawma cynnar a all arwain at anghenion ymlyniad ac ymddygiadol ychwanegol. Bydd pob profiad yn wahanol, felly ceisiwch fod mor hyblyg ag y gallwch. Cofiwch, mae gan fabwysiadwyr yr un hawl i absenoldeb rhiant y llywodraeth. Fodd bynnag, chi, y cyflogwr, sydd i benderfynu ar y lwfansau cymorth atodol. Gall mabwysiadwr wneud cais am gymorth pellach drwy ei asiantaeth/cyngor mabwysiadu lleol.

# Cwestiynau Cyffredin

**7. A oes hawliau gwahanol i ddynion, merched, mabwysiadwyr o'r un rhyw neu drawsryweddol?**Ni ddylai hawliau wahaniaethu yn erbyn unrhyw statws rhyw neu berthynas. Mae mwy a mwy o fusnesau yn gwneud absenoldeb mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu yn gyfartal er mwyn gwella tegwch yn y gweithle.

**8. Sut ydw i'n cefnogi fy ngweithiwr gyda straen rhiant?**
Bydd hyn yn amrywio o berson i berson, felly rydym yn eich cynghori i ddilyn eich polisïau llesiant a rhieni i gefnogi gweithwyr sy'n mabwysiadu Gallwch hefyd eu cyfeirio at linell gymorth Mabwysiadu UK – 029 2023 0319 o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 10am a 2.30pm.

**9. Ble gallaf ddod o hyd i ragor o wybodaeth am fabwysiadu?**
Cliciwch yma am fwy o wybodaeth.

**10. Ac yn olaf, beth sydd ynddo i mi?**
Bydd cefnogi mabwysiadwyr yn rhagweithiol yn helpu eich busnes i ddod yn fwy cynhwysol, gan greu diwylliant gwaith cadarnhaol sy'n denu gweithwyr dawnus.

Gwasanaeth **Mabwysiadu** Cenedlaethol | National **Adoption** Service

# Angen mwy o help?
# **Dim problem.**

**Cysylltwch**
Ffôn: 029 2087 3927
E-bost: contact@mabwysiaducymru.com
mabwysiaducymru.com